# AVERAGE WHITE BAND YN CYHOEDDI EU TAITH CANU'N IACH

Mae'r Average White Band, un o *fandiau canu'r enaid a ffync gorau'r oesoedd*, wedi cyhoeddi eu taith canu'n iach ym misoedd Ebrill a Mai 2024.

Ar eu taith ddau oed ar bymtheg bydd y grŵp yn perfformio eu hits mwyaf a ffefrynnau'r selogion, megis *Let's Go Round Again*, *Cut The Cake*, *Atlantic Avenue* a'r Rhif Un yn yr Unol Daleithiau *Pick Up The Pieces*.

Yn cychwyn ym Manceinion ar 26ain Ebrill 2024, bydd y daith yn cris-croesi gwledydd Prydain cyn dod i ben yn Holmfirth ar 18fed Mai, yn cynnwys oedau o fri yn y Royal Albert Hall yn Llundain ar 2il Mai, Royal Concert Hall yn Glasgow ar 7fed Mai a Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd ar 15fed Mai.

Yn rhyfedd iawn, o gofio'u gwreiddiau yn yr Alban, yn Llundain ym 1972 yr ymffurfiodd y band chwe darn, cydio yn nylanwadau eu harwyr Rhythm a'r Felan megis Marvin Gaye, James Brown a Stevie Wonder, a meithrin eu naws ddilys eu hunain a chynulleidfaoedd croenddu yn yr Unol Daleithiau a mewn mannau eraill yn cythru amdani'n frwd. Yn sgil cyfansoddi caneuon cyson ddawnus y grŵp bu ganddyn nhw sawl albwm aur a phlatinwm ac enwebiadau Grammy rhif y gwlith gyda'r label chwedlonol Atlantic Records.

Ar ben senglau hit y band, cafodd llawer o'u traciau albwm megis *Schoolboy Crush* a *Person to Person*, ymhlith eraill, eu samplo'n helaeth gan y Beastie Boys, Public Enemy, Ice Cube, A Tribe Called Quest ac Arrested Development a'u tebyg – gymaint felly fel bod AWB yn un o'r pymtheg o actau a samplwyd fwyaf erioed.

Ers dros hanner can mlynedd mae'r Average White Band yn byw ac yn bod mewn pennaf oedfannau dwy'r byd yn grwn a'u taith canu'n iach ydi'r cyfle olaf, rhy dda i'w golli, i sawl cenhedlaeth o selogion brofi egni cerddorol a naws nodweddiadol un o'r bandiau canu'r enaid gwirioneddol fawr.

Yn sôn am y daith canu'n iach, meddai un o'r aelodau sylfaenu Alan Gorrie, "AWB has been our life for the last 50-plus years and has brought unbelievable highs – and some lows – to us throughout that tumultuous half-century, touring the globe and seeing the millions of happy and friendly faces that have greeted us wherever we have performed."

"That it's finally coming to an end is going to mean a highly emotional tour next year, but one which will mean we bow out at the top level, thanks in great part to the wonderful five American 'soul brothers' who have been our band members for the last many years, and who are some of the best soloists and singers you could find on the planet." Meddai Onnie McIntyre, "Our guys never phone it in, they bring it all every night. The tour will be our way of saying goodbye and thank you to all the people who have supported us over the years. It'll be wild - bring your dancing shoes."

"No doubt the unbelievable success of *Pick Up The Pieces* and other Grammy-nominated classics helped get us there. We bucked our Scottish roots, took our cues from Marvin Gaye, Al Green and

James Brown, and took ‘coals to Newcastle’ when we broke into the US and a huge multi-racial following there, to add to our loyal UK fans.

“We hope to see you all at next Spring’s concerts, and to help us see out our final fling on the British Highway, including Glasgow’s Royal Concert Hall, London’s Royal Albert Hall, and any other ‘Royals’ you can think of. Please don’t miss it!!

“As a final tour of the United Kingdom, this will be a joyous (but bittersweet) trip through our roots, our history and our love affair with all of the UK since 1972, when we first stuck our toes in the waters of home-spun Soul and R&B, taking it to the rest of the world and to success we could hardly have imagined back then. Please join us in a final celebration of that journey, and to a last hurrah of epic proportions with your presence and your ever-ready appreciation!”

Dyma restr lawn oedau taith canu’n iach yr Average White Band:

Ebrill

| | | |
|---|---|---|
| 26 | Manceinion | Bridgewater Hall |
| 27 | Birmingham | Town Hall |
| 28 | Caergrawnt | Corn Exchange |
| 30 | Norwich | Epic Studios |

Mai

| | | |
|---|---|---|
| 2 | Llundain | Royal Albert Hall |
| 3 | Bexhill | De La Warr Pavilion |
| 4 | Bath | The Forum |
| 6 | Newcastle | Tyne Theatre & Opera House |
| 7 | Glasgow | Royal Concert Hall |
| 8 | Aberdeen | Music Hall |
| 10 | Perth | Concert Hall |
| 11 | Caeredin | Usher Hall |
| 13 | Nottingham | Rock City |
| 14 | Rhydychen | O2 Academy |
| 15 | Caerdydd | Neuadd Dewi Sant |
| 17 | Caerefrog | Barbican |
| 18 | Holmfirth | Picturedrome |

https://www.averagewhiteband.com/
https://www.facebook.com/AverageWhiteBand/
https://twitter.com/AverageWhiteBnd